
# Bwydlen Gwaith Cartref Tymor y Gwanwyn 2020



Mae angen gwneud o leiaf 5 tasg erbyn Mawrth 31ain. Bydd angen dewis o wahanol liwiau.

Cewch ddewis ffordd o gyflwyno'r gwaith ond mae'n rhaid iddo fod yn daclus. Thema yr Urdd ydy Môr a Mynydd (Summit to Sea) neu yr idiom 'making a mountain out of a molehill. Mae syniadau ar dudalen y we.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Darllen**<br>Darllenwch nofel Gymraeg neu Saesneg. Ysgrifenwch adolygiad o'r nofel neu fe allwch chi gyflwyno y wybodaeth fel flog. | **Dylunio a Thechnoleg**<br>Ewch ati i greu model o greadur y goedwig – cewch ddewis papier machier, lego neu unrhyw gyfrwng o'ch dewis. Cewch ychwanegu ei gynefin os hoffech. | **TGCh**<br>Gwnewch animeiddiad gyda thema'r goedwig. Efallai gallech ddangos y cadnoid yn chwarae! | **Dylunio a Thechnoleg (Un o'r rhain – thema'r Urdd)**<br>1) Ewch ati i greu model 3D.<br>2) Creu pyped<br>3) Creu gemwaith |
| **Creu Graff**<br>Casglwch ddata am hoff anifeiliaid y goedwig (allan o chwech) o leiaf 20 person a dangoswch y wybodaeth yma ar graff.<br>Lluniwch o leiaf pump cwestiwn am y data ac atebwch y cwestiynau. | **Mynegi Barn**<br>Dewiswch destun siarad yr wythnos a chasglwch farn o leiaf pedwar person. Ceisiwch siarad gyda phobl o wahanol oedrannau a recordiwch eich sgwrs. | **TGCh**<br>Mae nifer o becynnau diogelwch ar y we ar Hwb- Dewiswch un o'r pecynnau a thrafodwch y wybodaeth fel teulu.<br>https://hwb.gov.wales/zones/online-safety/learners/<br>Beth am rannu syniadau ar sut i leihau amser sgrin? | **Gwaith Creadigol (Un o'r rhain)**<br>1) 2D creadigol- collage<br>2) 2D llun (dim mwy na 76cm x 56cm)<br>3) Cynllun ar gyfer gwaelod bwrdd sglefrio neu hwylfwrdd neu fwrdd eira<br>4) Graffeg cyfrifiadurol (dim clip art) |
| **Technoleg Bwyd**<br>Gwnewch fisgedi neu deisennod a'u haddurno â chreaduriaid y goedwig. Beth am recordio'ch hun yn coginio a rhannu eich profiad gyda fi? | **Gwrando**<br>Gwrandewch ar gerddoriaeth gan 'Calan' a dau grŵp arall sydd yn 'Drac yr Wythnos' yn yr ysgol. Ydych chi'n eu hoffi? Gwnewch adolygiad ohonynt – yn ysgrifenedig neu ar lafar. | **Lles**<br>Amser yn yr awyr agored.<br>Beth am fynd am dro o amgylch y goedwig?<br>Gallwch:<br>Dynnu lluniau pethau naturiol ac ymchwilio i enwau rhain yn Gymraeg i ehangu geirfa (e.e planhigion ac anifeiliaid)<br>Cyflwyno flog o'ch taith natur. | **Ffotograffiaeth (Un o'r rhain)**<br>1) Un print monocrom<br>2) Un print lliw<br>3) Cyfres o 4 print monocrom (series of 4)<br>4) Cyfres o 4 print lliw |